**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Paul Davies AS,
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

John Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

2 Tachwedd 2023

Annwyl bawb,

Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Hoffem dynnu eich sylw at yr ohebiaeth a gawsom ar 17 Hydref gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn ymateb i'n hadroddiad ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio.

Efallai y bydd y paragraff a ganlyn yn llythyr y Gweinidog, mewn ymateb i Argymhellion 8 a 10 yn ein hadroddiad, o ddiddordeb penodol ichi:

> *"Nid oes i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae'n creu tirlun polisi a allai beri dryswch o gofio ein bod wedi pennu'r nodau llesiant hirdymor i Gymru gyda dangosyddion cysylltiedig a cherrig milltir cenedlaethol gan edrych at 2050. Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddem yn disgwyl iddynt gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a llunio a chyflawni amcanion llesiant sy'n cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru."*

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd